THOMAS, LEWIS (1877 - 1955), arloeswr celfyddyd cerdd dant yn neheudir Cymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif

Enw: Lewis Thomas
Dyddiad geni: 1877
Dyddiad marw: 1955
Priod: Mary Emiah Thomas (née Jones)
Rhiant: Jane Thomas
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arloeswr celfyddyd cerdd dant yn neheudir Cymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth
Awdur: Evan Gwyndaf Evans

Ganwyd ym Mhontyberem, Cwm Gwendraeth, Caerfyrddin, 30 Mai 1877, yr hynaf o naw bachgen William Thomas, glöwr, a Jane ei wraig. Bu'r mab yn y lofa am ychydig cyn cael ei brentisio'n grydd ac ennill ei le fel gwneuthurwr esgidiau a wneid yn lleol y pryd hwnnw.

Priododd yn 1905 Mary Emiah Jones, athrawes ym Mhontyberem, ond yn enedigol o Lan-non, Llanelli. Ganwyd iddynt fab a dwy ferch. Priododd ei ferch Amy â T. H. Parry-Williams, a phriododd ei ferch Mary â D. J. Llewelfryn Davies. Codasant dy a siop ynghlwm wrtho, a chadw siop y bu am flynyddoedd a hyfforddi ei brentisiaid o gryddion mewn gweithdy y tu cefn i'r siop. Yn ddiweddarach bu'n gasglwr trethi dros awdurdod Llanelli. Yr oedd ef a'i briod yn flaenllaw gyda gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yn y pentre, ef yn eisteddfodwr brwd o'i ieuenctid ac yn cystadlu ar adrodd a chyfansoddi traethodau, emyn-donau, anthemau i blant, a chorawdau.

Fel rhai o'i frodyr ymddiddorai mewn cerddoriaeth, ac yr oedd organ fach neu harmoniwm yn y cartref. Enillodd dystysgrifau Coleg y Tonic Sol-ffa yn arholiadau'r mudiad a gynhelid yn festri capel Caersalem (A), lle'r oedd yn aelod. Tuag 1916-18 fe drodd ei ddiddordeb cerddorol at gerdd dant. Prynwyd telyn a chafodd wersi gan Delynores Elli, a meistroli'r delyn yn ddigon da i gyfeilio i'w blant lle gynt y defnyddiai'r piano. Bu llawer o gerddorion proffesiynol yn ceisio'i gymorth a'i gael yn fwy na pharod i gyfrannu o'i ddysg. Dechreuodd gystadlu fel ' gosodwr ', a bu ei gasgliadau o osodiadau'n fuddugol mewn mwy nag un Eisteddfod Genedlaethol - Caerffili, 1950, Aberystwyth, 1952, ac Ystradgynlais, 1954. Cyhoeddwyd yr olaf- *Hwiangerddi gyda'r tannau* - gan Gwmni Snell yn 1956. Cyfrannodd erthyglau a gosodiadau i *Allwedd y tannau* a'r *Athro*. Bu'n beirniadu'n gyson am flynyddoedd yn adran cerdd dant yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Wyl Gerdd Dant, ac Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Am ei wasanaeth derbyniwyd ef yn aelod o Orsedd Beirdd Ynys Prydain yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 1930. Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Cerdd Dant o'i chychwyn, darlithiai yn ei hysgol haf gyntaf, ac ef oedd yr ail i ddal ei llywyddiaeth. Gwnaed ef yn aelod anrhydeddus o'r gymdeithas.

Bu farw yn ysbyty Aberystwyth, 16 Mai 1955, a'i gladdu ym mynwent eglwys Llan-non, Llanelli.

Awdur

Y Prifardd Evan Gwyndaf Evans, (1913 - 1986)

Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei ferch, y Fonesig Amy Parry-Williams

gwybodaeth bersonol

Allwedd y Tannau Cylchgrawn Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, 15 (1956)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Papurau'r Fonesig Amy Parry-Williams: Gosodiadau Cerdd Dant I

Wikidata: Q20733807

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Evans, E. G., (1997). THOMAS, LEWIS (1877 - 1955), arloeswr celfyddyd cerdd dant yn neheudir Cymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-THOM-LEW-1877

Copïo i'r Clipfwrdd

Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan:
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government